Cynigir yr anheddau gyda thoeau traddodiadol ar oledf o dan deils o ddau liw yn y drefn honno (llwyd tywyll / coch tywyll) gyda waliau allanol mewn amrywiaeth o rendrad wedi'i baentio â thywod/sment a gorffeniad brics coch. Mae drysau i'w darparu mewn cyfansawdd wedi'i steilio gyda ffenestri, cafnau dŵr ac ati, ffasiâu, a soffitiau mewn UPVC.

Byddai mynedfa i gerbydau i'r safle yn cael ei darparu gan fynedfa newydd o Heol y Felin Newydd i'r de o'r safle, gyda throedffordd 2m i'w darparu ar hyd Heol y Felin Newydd i gysylltu â throedffordd sy'n bodoli eisoes wrth y gyffordd â Ffordd Aberystwyth. Mewn manau eraill, bydd mynedfa i gerddwyr yn cael ei darparu mewn dau fan o fewn y safle -- o ganol y safle tua'r gorllewin i Heol y Wern, gyda chynlluniau'n dangos ramp dangosol yn cysylltu â ffordd bonyn fabwysiedig bresennol, ac i'r gogledd o'r safle i Heol y Felin Newydd.

Mae cynllun y safle yn gweld y brif fynedfa yn ymrannu i ddau gyfeiriad, gan rannu'r safle yn dri phatrwm preswyl llinol yn fras sy'n rhedeg o'r de-ddwyrain i'r gogledd-orllewin. Yng nghornel ogledd-orllewinol y safle, cynigir basn arafu, plannu brodorol a llwybrau cerdded i

gerddwyr mewn cysylltiad â'r strategaeth ddraenio o ystyried mai dyma ardal isaf y safle ac i ddarparu mannau agored anffurfiol.

Cynigir Ardal Chwarae Leol ffurfiol o 375m.sg ar y ffin ddwyreiniol i ymgorffori nodweddion chwarae naturiol a mannau eistedd cyhoeddus gyda mannau gwyrdd cymunedol a thirweddau naturiol yn cael eu darparu mewn mannau eraill ar draws y safle.

Cynigir draenio dŵr budr i gysylltu â'r brif garthffos yn Heol y Wern drwy system fudr disgyrchiant a bydd dŵr wyneb yn destun systemau draenio cynaliadwy yn amodol ar gydsyniad Corff Cymeradwyo System Ddraenio Gynaliadwy Ceredigion.

## **POLISIÂU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL**

Mae'r polisiau cenedlaethol a lleol hyn yn berthnasol wrth benderfynu ar y cais hwn:

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12, Chwefror 2024)
- TAN2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)
- TAN5 Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)
- TAN12 Dylunio (2016)
- TAN18 Trafnidiaeth (2007)
- TAN20 Cynllunio a'r Gymraeg (2017)
- S01 Twf Cynaliadwy
- S02 Datblygu mewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol
- S04 Datblygu mewn Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill
- S05 Tai Fforddiadwy
- LU02 Gofynion sy'n ymwneud â phob Datblygiad Preswyl
- LU04 Diwallu Amrywiaeth o Anghenion Tai
- LU05 Sicrhau Cyflenwi Datblygiadau Tai
- LU06 Dwysedd Tai
- LU24 Darparu Mannau Agored Newydd
- LU30 Diogelu
- DM01 Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a'r Iaith Gymraeg
- DM03 Teithio Cynaliadwy
- DM04 Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol
- DM05 Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio
- DM06 Dylunio a Chreu Lle o Safon Uchel
- DM08 Arwyddion Dwyieithog ac Enwau Llefydd
- DM09 Dylunio a Symud
- DM10 Dylunio a Thirweddau
- DM11 Dylunio ar gyfer y Newid yn yr Hinsawdd
- DM12 Seilwaith Cyfleustodau
- DM13 Systemau Draenio Cynaliadwy
- DM14 Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- DM15 Cadw Bioamrywiaeth Leol
- DM17 Y Dirwedd yn Gyffredinol
- DM20 Gwarchod Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd
- DM22 Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd yn Gyffredinol
- Canllawiau Cynllunio Atodol Cymuned a'r Gymraeg 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Mannau Agored Ebrill 2014
- Canllawiau Cynllunio Atodol Safonau Parcio Cyngor Sir Ceredigion 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Asesiad Trafnidiaeth 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Amgylchedd Adeiledig a Dylunio 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Cadwraeth Natur 2015
- Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy 2014

## **YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL**

### **DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998**

Mae Adran 17(1) Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i arfer ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyledus i effaith debygol arfer y swyddogaethau hynny ar drosedd ac anhrefn o fewn ei ardal, a'r angen i wneud popeth o fewn ei allu i atal trosedd ac anhrefn yn ei ardal. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i hystyried wrth werthuso'r cais hwn. Ystyrir na fyddai dim cynnydd sylweddol nac annerbyniol mewn trosedd ac anhrefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

### **DEDDF CYDRADDOLDEB 2010**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oed; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw dyledus i hybu cydraddoldeb yn golygu:

- dileu neu leihau anfanteision y mae pobl yn eu dioddef oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill; ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu weithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Rhoddwyd ystyriaeth ddyledus i'r ddyletswydd uchod wrth benderfynu ar y cais hwn. Ystyrir na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn peri

goblygiadau sylweddol i bobl â nodweddion gwarchoddedig nac yn cael effaith arnynt sy'n fwy nag ar unrhyw berson arall.

## DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r saith nod llesiant yn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel y nodir yn Neddf 2015. Wrth gyrraedd yr argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

## YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD / CONSULTATION RESPONSES

### Cyngor Tref Aberteifi Town Council:

*Mae'r Cyngorwyr yn cymeradwyo'r cais ond yn pwysleisio pwysigrwydd cwrdd â'r cyngor technegol cyfredol ar gyfer darparu draeniad oherwydd natur hanesyddol llifogydd ar y safle a'r ardal o'i amgylch*

*Councillors approve this application but stress the importance of meeting current technical advice for drainage provision, due to the historic nature of flooding on the site and surrounding area.*

### Asiantaeth Cefnffyrdd:

Ni roddwyd cyfarwyddyd

### Priffyrdd:

Dim gwrthwynebiad yn destun amodau

### Draenio Tir:

Mae'r safle'n gyfagos i ardal sydd â risg isel o lifogydd dŵr wyneb. Mae angen cymeradwyaeth system ddraenio gynaliadwy.

### Ecoleg:

Dim gwrthwynebiad yn destun amodau

### Cyfoeth Naturiol Cymru:

Dim gwrthwynebiad yn destun amodau

### Dŵr Cymru Welsh Water:

Dim gwrthwynebiad yn destun amodau

### Heneb:

Nid oes angen gweithredu pellach ar sail yr amgylchedd hanesyddol.

### CADW:

Dim ymateb

### Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru:

Dim gwrthwynebiad

### Sylwadau Trydydd Partïon:

Cafwyd sylwadau wedi'u llofnodi gan gyfanswm o 33 unigolyn yn gwrthwynebu a chafwyd llythyr gan Ymgynghorydd Cynllunio a oedd wedi'i gyfarwyddo ar ran trigolion yn gwrthwynebu (nifer amhenodol) -- sylwadau wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

- Mae'r safle y tu allan i ffin anheddiad y CDLI
- Maint y datblygiad yn groes i lwybr tai Aberteifi -- ni ellir ei ystyried yn safle eithriedig gwledig
- Pryderon ynghylch cynhyrchu traffig, gallu cyffyrdd, tagfeydd, diogelwch ar y ffyrdd, parcio
- Mwy o alw ar drafnidiaeth gyhoeddus
- Effaith ar wasanaethau lleol (ysgolion, practisiau meddygol, deintyddion)
- Niwed ecolegol i rywogaethau a chynefin
- Dyluniad yn anghyson â'r datblygiad o'i gwmpas
- Pryderon y bydd y datblygiad yn edrych dros eiddo eraill
- Pryderon am y gallu i ddraenio dŵr budr
- Pryderon am lifogydd dŵr wyneb
- Mwy o lygredd sŵn / golau / aer
- Effaith ar gyflenwad trydan / dŵr
- Diffyg Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu ac Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd
- Nid yw'r rhybuddion cywir wedi eu rhoi i dirfeddianwyr
- Ymholiadau mewn perthynas â safleoedd eraill yn Aberteifi sy'n eiddo i Tai Wales and West

Yn dilyn newid i'r cynllun i ddarparu cyswllt llwybr troed o'r safle tua'r gorllewin i Heol-y-Wern, cyfarwyddwyd ail-ymgyngoriad o 14 diwrnod i'r holl gymdogion yr ymgynghorwyd â nhw drwy llythyr yn wreiddiol. Mae sylwadau pellach a ddarparwyd gan drydydd partïon (gan gynnwys y rhai a roddodd sylwadau yn flaenorol) yn cael eu crynhoi fel a ganlyn:

- Gwaethygu ymddygiad gwrthgymdeithasol (tipio anghyfreithlon, gweithgaredd annymunol, defnyddio cilfan wrth ymyl cartrefi symudol)
- Gwaethygu trosedd, sŵn, fandaliaeth
- Nid oes angen cysylltiadau llwybrau troed â Heol y Felin Newydd a Heol y Wern
- Nid ydy'r cyswllt llwybr troed i Heol y Wern wedi derbyn cymeradwyaeth yr heddlu
- Byddai cyswllt llwybr troed i Heol y Wern yn effeithio ar breifatrwydd a diogelwch eiddo cyfagos
- Ymholiadau ynghylch cywirdeb datganiadau ecolegol mewn perthynas â moch daear a nadroedd gwair
- Cais am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) i'w gynnal a'i wneud yn gyhoeddus

## CASGLIAD

Mae Adran 38 (6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn datgan: "If regard is to be had to the development plan for the purpose of any determination to be made under the planning Acts the determination must be in accordance with the plan unless material consideration indicate otherwise".

Mae'r cynlluniau datblygu perthnasol ar gyfer Ceredigion yn cynnwys Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040 (Cymru'r Dyfodol) a Chynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 (CDLI). Nid oes Cynllun Datblygu Strategol wedi'i fabwysiadu ar gyfer rhanbarth Canolbarth Cymru. Er bod CDLI Ceredigion wedi cyrraedd ei ddyddiad dod i ben, dyma'r cynllun datblygu statudol ar gyfer y Sir o hyd gan y'i mabwysiadwyd cyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

Yn unol â Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, pe bai polisi yng Nghymru'r Dyfodol yn gwrthdaro â pholisi o fewn CDLI Ceredigion, yna dylid datrys y gwrthdaro o blaid y polisi a geir yng Nghymru'r Dyfodol. Mae hyn oherwydd mai Cymru'r Dyfodol yw'r cynllun datblygu diweddaraf i gael ei fabwysiadu.

## Egwyddor Datblygu

Cymru'r Dyfodol yw'r fframwaith datblygu cenedlaethol ac mae'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer twf yng Nghymru hyd at 2040. Yn unol â Pholisi 25 Cymru'r Dyfodol, dylai anghenion tai rhanbarthol Canolbarth Cymru gael eu diwallu drwy ddatblygu o fewn Ardaloedd Twf Rhanbarthol. Er nad yw maint yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol wedi'i ddiffinio, mae Cymru'r Dyfodol yn nodi bod nifer o brif aneddiadau wedi'u lleoli yn yr ardaloedd hyn. Un o'r aneddiadau hyn yw Aberteifi a nodir fel un sydd o fewn Ardal Twf Rhanbarthol Dyffryn Teifi.

Mae Strategaeth CDLI Ceredigion yn cyd-fynd â Chymru'r Dyfodol gan ei bod yn ceisio cyfeirio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau tai (51%) i brif drefi'r Sir, sy'n cynnwys Aberteifi, gan eu bod yn cael eu hystyried y lleoliadau mwyaf cynaliadwy yn y Sir. At ddibenion y CDLI, cyfeirir at y prif drefi fel 'Canolfannau Gwasanaeth Trefol' ac yna 'Canolfannau Gwasanaethau Gwledig', 'Aneddiadau Cyswllt' a 'Lleoliadau Eraill' yn hierarchaeth yr aneddiadau.

Mae maint y 'Canolfannau Gwasanaeth Trefol' yn cael ei ddiffinio gan ffiniau aneddiadau. Mae'r rhain wedi'u llunio i ganiatáu digon o gyfleoedd datblygu i gwrdd â'r twf a gynlluniwyd ar ei gyfer o dan y CDLI, tra'n parhau i sicrhau bod datblygiad yn cysylltu'n dda â'r ffurf adeiledig bresennol. Mae Polisi S02 y CDLI felly yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau tai mewn 'Canolfannau Gwasanaethau Trefol' ddod ymlaen o fewn ffin ddiffiniedig yr anheddiad. Yn yr achos hwn, er y byddai'r datblygiad arfaethedig yn byw gerllaw ffurf adeiledig bresennol Aberteifi, byddai wedi'i leoli y tu allan i ffin yr anheddiad. Felly, at ddibenion y CDLI, ystyrir bod y safle arfaethedig yn dod o fewn 'Lleoliadau Eraill'.

Yn gyffredinol, ystyrir datblygiad y tu allan i 'Ganolfannau Gwasanaeth' yn gynaliadwy dim ond lle mae'n caniatáu i'r gymuned bresennol fodloni rhai o'i hanghenion. Mae Polisi S04 y CDLI felly'n nodi mai dim ond lle mae'n diwallu angen amlwg am dai fforddiadwy yn yr ardal leol neu angen am anedd menter wledig y gellir cyfiawnhau datblygiadau tai mewn 'Lleoliadau Eraill'. O ran lleoliad ffisegol, rhaid lleoli tai fforddiadwy yn union wrth ymyl grŵp presennol o anheddau yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol.

Yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy a chynllunio cenedlaethol, rhaid gwarchod cefn gwlad. Mae'n bwysig felly bod y gyfradd datblygu tai mewn 'Lleoliadau Eraill' yn cael ei rheoli. Am y rheswm hwnnw, mae Polisi S04 y CDLI ond yn gefnogol o dai fforddiadwy mewn lleoliadau o'r fath ar yr amod nad oes mwy na'r ddarpariaeth a ddyrannwyd, a bod y cydbwysedd rhwng y ddarpariaeth yn y 'Ganolfan Wasanaeth' a'r 'Aneddiadau Cyswllt' a 'Lleoliadau Eraill' yng Ngrŵp perthnasol yr Aneddiadau yn unol â'r hyn a nodir yn y CDLI.

Neilltuodd y CDLI 564 o unedau i Grŵp Aneddiadau Aberteifi gyda disgwyl i 420 o'r unedau hyn ddod ymlaen o fewn 'Canolfan Gwasanaeth Trefol' Aberteifi. Cafodd y 144 uned arall eu neilltuo i 'Aneddiadau Cyswllt' a 'Lleoliadau Eraill'. Ym mis Rhagfyr 2024, mae 152 o unedau wedi'u cyflwyno o fewn 'Aneddiadau Cyswllt' a 'Lleoliadau Eraill' yng Ngrŵp yr Aneddiadau. Ar ôl rhoi cyfrif am ddymchweliadau ac addasiadau, mae hyn yn golygu bod 6 uned wedi mynd y tu hwnt i'r ddarpariaeth a ddyrannwyd. Mewn cyferbyniad, bu ymrwymadau ar gyfer 375 o'r 420 o unedau a neilltuwyd i 'Ganolfan Gwasanaeth Trefol' Aberteifi. Ar ôl rhoi cyfrif am ddymchweliadau ac addasiadau, mae hyn yn gadael gofyniad sy'n weddill o 59 uned ar gyfer y 'Ganolfan Gwasanaeth Trefol'.

O ran dosbarthiad unedau preswyl, neilltuodd y CDLI 74.5% o'r twf a ragwelir o ran tai yng Ngrŵp yr Aneddiadau i 'Ganolfan Gwasanaeth' Aberteifi. Mae'r 25.5% sy'n weddill wedi'u neilltuo i 'Aneddiadau Cyswllt' a 'Lleoliadau Eraill' Grŵp yr Aneddiadau. Mae Ffigurau Tai'r CDLI ym mis Rhagfyr 2024 yn nodi ymrwymadau ar gyfer 511 o unedau preswyl yng Ngrŵp yr Aneddiadau ar ôl rhoi cyfrif am addasiadau a dymchweliadau. Mae 70.6% o'r unedau hyn wedi dod ymlaen yn y 'Ganolfan Wasanaeth', tra bod y 29.4% sy'n weddill o'r unedau wedi dod ymlaen o fewn 'Aneddiadau Cyswllt' a 'Lleoliadau Eraill'. Felly, nid yw'r dosbarthiad a geisir yn cael ei gyflawni a byddai datblygiad pellach y tu allan i'r 'Ganolfan Wasanaeth' yn gwaethygu'r anghydbwysedd hwn.

Ystyrir y datblygiad arfaethedig yn groes i bolisiau strategol y CDLI ac mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol benderfynu ar geisiadau yn unol â'r polisiau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun datblygu oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Fodd bynnag, mae Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 12 yn nodi bod angen cymuned am dai fforddiadwy yn un ystyriaeth berthnasol o'r fath y mae'n rhaid ei hystyried wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio perthnasol. Cynghorir awdurdodau cynllunio i gyfeirio at eu Hasesiad o'r Farchnad Dai Leol i helpu i benderfynu ar yr angen am dai fforddiadwy.

Mae Asesiad Ceredigion o'r Farchnad Dai Leol 2022 yn nodi'r anghenion diweddaraf o ran tai yn y Sir. Mae'r Asesiad yn nodi angen gros blynyddol o 75 uned fforddiadwy rhwng 2022 a 2027 ar gyfer Ardal Marchnad Tai Dyffryn Teifi, sy'n cynnwys Aberteifi. Wrth roi cyfrif am

gyflenwad cynlluniedig a throsiant y stoc bresennol, mae'r offeryn yn amcangyfrif angen net blynyddol o 43 o unedau fforddiadwy ar gyfer Ardal Marchnad Dai Dyffryn Teifi am 5 mlynedd gyntaf yr Asesiad.

Mae'r Asesiad diweddaraf o'r Farchnad Dai Leol yn nodi bod angen tai fforddiadwy yn yr ardal ac yn unol â Pholisi 7 Cymru'r Dyfodol, mae disgwyl i awdurdodau cynllunio archwilio pob cyfle i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy mewn ymateb i anghenion lleol a rhanbarthol. Mae Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 12 yn nodi y gallai mân estyniadau i aneddiadau sy'n bodoli eisoes fod yn dderbyniol, yn enwedig lle maent yn diwallu angen lleol am dai fforddiadwy.

O ystyried agosrwydd y safle at Aberteifi, ystyrir y byddai'r datblygiad yn cyd-fynd yn dda â'r ffurf adeiledig bresennol ac, yn amodol ar gysylltiadau swyddogaethol â'r setliad presennol, gellir ei ystyried yn lleoliad cynaliadwy lle gellir cael gafael ar wasanaethau a chyfleusterau trwy ddulliau teithio llesol a chynaliadwy, tra hefyd yn cyfrannu tuag at ddiwallu anghenion tai fforddiadwy.

Ar y sail hon, tra'n cydnabod y gwrthdaro â CDLI Ceredigion o ran ei leoliad y tu allan i ffin yr anheddiad a gwaethygu datblygiad anghytwys sy'n cael ei gyflwyno o fewn grŵp yr aneddiadau, byddai'r datblygiad arfaethedig yn darparu nifer sylweddol o anheddau fforddiadwy mewn lleoliad sy'n cyd-fynd yn dda â'r anheddiad presennol ac yn gwneud cyfraniad nodedig at ddarparu tai fforddiadwy yn Aberteifi a'i rhanbarth.

I gloi felly, mae darparu cynllun sy'n darparu tai fforddiadwy 100% wedi cael cryn dipyn o bwys yn yr asesiad hwn ac ystyrir ei fod yn drech na'r gwrthdaro a nodwyd gyda'r CDLI. Felly, derbynnir yr egwyddor o ddatblygu.

Mewn perthynas â diogelu agregau, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn fodlon bod y datblygiad yn bodloni gofynion LU30 a bod y datblygiad yn gydnaws o ystyried yr ardal gyfyngedig sy'n dod o fewn yr ardal ddiogelu a chyd-destun preswyl cyffredinol yr ardal sy'n gwneud unrhyw gloddio yn yr ardal benodol hon yn annhebygol iawn.

### Effaith ar y Gymraeg a'r Gymuned

Mae Polisi DM01 y CDLI yn ei gwneud yn ofynnol i Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Iaith gael ei gyflwyno gyda cheisiadau cynllunio ar gyfer datblygu sy'n arwain at dai newydd lle mae maint y datblygiad yn wahanol i'r hyn a ganiateir o dan S03 ac S04.

Cyflwynwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Iaith yn unol â DM01 i nodi'r gymuned Gymraeg bresennol yn Aberteifi mewn perthynas â thueddiadau cenedlaethol a ledled y sir. Dengys data'r cyfrifiad yr ystyrir bod gan 41.4% o boblogaeth Aberteifi y gallu i siarad Cymraeg, tra bod y ffigur ar gyfer Ceredigion gyfan yn codi i 45.3%.

Yn unol â DM01 a'r Canllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig, mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Iaith yn nodi 11 effaith gadarnhaol, 8 effaith niwtral, a 0 effaith negyddol ar y Gymraeg drwy'r datblygiad ac yn ystyried y gall darparu tai fforddiadwy ar sail polisi Dyrannu'r Cyngor alluogi unigolion i aros yn rhan o'r gymuned.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn fodlon nad yw'r bwriad yn debygol o gael unrhyw effaith andwyol ar y gymuned a'r Gymraeg.

O ran gallu'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion yn Aberteifi a'r ardaloedd cyfagos, mae Gwasanaethau Dysgu'r Cyngor wedi dweud bod 15 o warchodwyr plant wedi'u cofrestru yn yr ardal. Dywedwyd bod digon o allu'n bodoli yn narpariaeth Cyloch Meithrin yn Aberteifi, Cenarth a Llechryd, tra bod gallu ym Mhen-parc yn gyfyngedig.

O ran addysg gynradd ac uwchradd, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod gallu yn Ysgol Gynradd Aberteifi ac Ysgol Uwchradd Aberteifi yn y drefn honno.

O ran gwasanaethau lleol ehangach, mae'r datblygiad yn cynnig 100% o anheddau fforddiadwy i unigolion ar gofrestr tai'r Cyngor, ac felly mae trigolion y dyfodol yn fwy tebygol o fod yn defnyddio gwasanaethau lleol yn barod.

### Cymysgedd o Dai

Mae maen prawf 2 Polisi LU02 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau preswyl ddarparu cymysgedd o fathau a meintiau o anheddau. Mae'r datblygiad yn cynnig y cymysgedd canlynol o dai:

- 3 Fflat Llaur Gwaelod 1-Gwely 2 Berson (**51m.sg**)
- 3 Fflat Llaur Cyntaf 1-Gwely 2 Berson (**55m.sg**)
- 10 Byngalo 1-Gwely 2 Berson (**50m.sg**)
- 1 Byngalo 2-Gwely 4-Person sy'n Hygyrch i Gadair Olwyn (**96m.sg**)
- 20 o Dai 2-Gwely 4-Person (**83m.sg**)
- 10 o Dai 3-Gwely 5-Person (**95m.sg**)
- 4 o Dai 4-Gwely 6-Person (**110m.sg**)

Mae Uwch Swyddog Tai y Sir wedi rhoi'r data canlynol mewn perthynas â'r angen presennol am dai fforddiadwy yn Aberteifi a'r ardaloedd cyfagos -

- Llety 1-Gwely: **259 ymgeisydd**
- Byngalo 2 Wely sy'n Hygyrch i Gadair Olwyn: **9 ymgeisydd**
- Llety 2-wely: **93 ymgeisydd**
- Llety 3 gwely: **71 ymgeisydd**
- Llety 4-Gwely: **39 ymgeisydd**

Dywedodd yr Uwch Swyddog Tai ymhellach:

*Mae'r Awdurdod Lleol wedi gofyn am y byngalo hwn [2 wely hygyrch i gadeiriau olwyn] ar gyfer teulu sydd angen byngalo cadair olwyn yn ardal Aberteifi. Ar hyn o bryd mae 9 ymgeisydd am fyngalo cadair olwyn 2 wely yn ardal Aberteifi.*

*Bydd pob eiddo yn cael ei adeiladu i ofynion ansawdd datblygu Cymru [Cartrefi a Mannau Prydferth] a gofynion Cartrefi Gydol Oes sy'n cynnwys mynediad gwastad i bob drws allanol. Bydd gan y byngalos a fflatiau'r llawr gwaelod ystafelloedd gwlybwrddu gosod*

Ar y sail hon, ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn darparu cymysgedd o fathau a meintiau o dai i gyfrannu tuag at ddiwallu'r angen sefydledig a sylweddol am dai fforddiadwy ar draws ystod eang o fathau o lety, yn unol â LU02.

## **Dwysedd Tai**

O ran dwysedd tai, mae safle'r cais yn ei gyfanrwydd yn cynnwys tua 1.9ha. Yn seiliedig ar ddarparu 51 uned, mae hyn yn cyfateb i ddwysedd o tua 26.8 annedd fesul hectar. Mae Datganiad Grŵp Aneddiadau Aberteifi yn pennu 28 annedd yr hectar fel y dwysedd cyfartalog ar draws ei safleoedd a ddyrannwyd ac felly hefyd fel man cychwyn ar gyfer datblygu ar hap sy'n gysylltiedig â'r anheddiad.

Mae'r safle'n cyflwyno rhai cyfyngiadau o ran yr ardal y gellir ei datblygu oherwydd ei dopograffeg -- fodd bynnag, bwriedir defnyddio'r ardal fwyaf cyfyngedig yng nghornel ogledd-orllewinol y safle i ddarparu ar gyfer basn arafu mewn cysylltiad â thrin dŵr wyneb ar y safle, ac felly mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried bod y defnydd cyffredinol o dir yn effeithiol ac effeithlon.

Dylid cydnabod hefyd fod y datblygiad yn darparu nifer uchel o fyngalos sydd angen plotiau mwy o faint ac felly yn lleihau dwysedd cyffredinol safleoedd preswyl. Fodd bynnag, mae'r eiddo hyn yn hanfodol wrth ddiwallu'r anghenion a nodwyd ac felly fe'u cefnogir i ddarparu'r cymysgedd o dai y gofynnir amdanynt.

Felly, gwelir y datblygiad yn unol â Pholisi CDLI LU06.

## **Tai Fforddiadwy**

Gan fod y cais yn cael ei gyflwyno ar ran landlord cymdeithasol cofrestredig, nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn gofyn am gwblhau cytundeb A106 gan y gellir rheoli meddiannaeth yr anheddau yn ddigonol gan amod cynllunio.

## **Dosbarthu Tir Amaethyddol**

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ceisio gwarchod tir amaethyddol o raddau 1, 2 a 3a, ac yn datgan y dylid datblygu tir o'r fath dim ond os oes angen pennaf am y datblygiad ac nad yw eu tir neu dir a ddatblygwyd yn flaenorol mewn glaswellt amaethyddol is ar gael, neu fod gan dir gradd is sydd ar gael werth amgylcheddol a gydnabyddir gan dirlun, bywyd gwyllt, dynodiad hanesyddol neu archeolegol sy'n drech na'r ystyriaethau amaethyddol.

Mae Adroddiad Dosbarthu Tir Amaethyddol wedi'i ddarparu i ddod i'r casgliad bod y tir yn cael ei ddsbarthu fel Gradd 4 - Tir Amaethyddol o Ansawdd Gwael o ystyried cyfyngiadau difrifol sy'n cyfyngu ar yr ystod o gnydau a/neu lefel y cynnyrch oherwydd natur lethrog ei dopograffeg.

O'r herwydd, ni fydd datblygu'r tir yn arwain at gollu tir gorau a mwyaf amlbwrpas yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru.

## **Dylunio, Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol**

Mae Polisi DM06 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau roi ystyriaeth lawn a chyfrannu'n gadarnhaol at gyd-destun ei leoliad a'i amgylchoedd. Mae'n hyrwyddo dylunio arloesol gan ystyried yr un pryd hynodrwydd lleol o ran ffurf, dyluniad a deunyddiau, a rhaid ystyried cydlyniant y ffurf adeiledig o ran graddfa, uchder a chymesuredd wrth gyfeirio at batrymau'r safle presennol. Yn ogystal, mae Polisi DM17 yn datgan na ddylai datblygiad gael effaith niweidiol arwyddocaol ar ansawdd a chymeriad y dirwedd, boed hynny trwy ymwithiad gweledol, lleoliad ansensitif, defnyddiau anghydnaws, methu cyd-fynd neu wella'r tiffurf, neu gollu nodweddion a phatrymau traddodiadol pwysig.

Mae cynlluniau wedi'u darparu ar gyfer pob math o dŷ yn ogystal â delweddiadau 3D o lefel stryd i hwyluso dealltwriaeth gliriach o'r strydlun canlyniadol. Er na fyddai'r rendriadau hyn yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cynlluniau a gymeradwywyd, maent yn arwydd o gymeriad cyffredinol y datblygiad.

Mae'r anheddau wedi'u cyfyngu i adeiladau unllawr a deulawr ar draws y safle ac felly fe'u hystyrir o raddfa briodol mewn perthynas â chymeriad yr ardal. Mae'r ystadau presennol ar Heol y Wern, Heol Derw, Heol Gollen a Dol y Dintir yn darparu amrywiaeth o fathau o dai o natur a chymeriad cymedrol wedi'u gosod o fewn plotiau cymedrol -- ystyrir y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cydweddu'n gyffredinol â phatrwm a chynllun presennol y datblygiad ac na fyddai'n arwain at ddim niwed i'r dirwedd, yn hytrach yn darllen fel estyniad naturiol i ffurf yr anheddiad.

O ran dyluniad, mae'r defnydd o ddeunyddiau a chymeriad gweledol yr anheddau arfaethedig wedi'u hystyried yn dda ac ni fyddent yn ymddangos yn anghydnaws, tra'n darparu diddordeb ar y strydlun trwy ddefnydd amrywiol rendrad brics coch a rendrad wedi'i baentio ar waliau allanol gyda mân nodweddion pensaernïol megis cynteddau agored i'w gweddau blaen. Ar ben hynny, rhoddir manylion am y triniaethau i'r ffin a gynigir mewn rheiliau pen pêl a rheiliau pen cylch sydd o ddiddordeb gweledol mwy na ffensys pren neu gladin.

Darperir tirlunio meddal i lefel dda ar draws tir y cyhoedd ac i ffyrntiau'r anheddau er mwyn sicrhau rhagor o ddiddordeb gweledol i'r strydlun -- hefyd yn hwyluso darparu nodweddion bio-gadw y gellir eu mabwysiadu i drin dŵr ffo wyneb y priffyrdd.

I gloi, ystyrir bod y datblygiad arfaethedig o safon uchel o ran ei gymeriad gweledol canlyniadol diolch i'w strydlun amrywiol o ran ffurf, graddfa a gorffeniad materol anheddau er mwyn osgoi datblygiad undonog ac anniddorol. Mae cynllun y safle yn darparu ar gyfer tirlunio meddal o ansawdd uchel drwy gydol y datblygiad a bydd yn cadw tirlunio meddal anffurfiol sylweddol i'w ffiniau i sicrhau bod y datblygiad canlyniadol yn cael ei sgrinio'n naturiol o fewn y dirwedd ac yn sicrhau nad oes dim anfantais weledol i amwynderau'r ardal.

Gwelir y datblygiad yn unol â DM06, DM10, DM17 a Chanllawiau Cynllunio Atodol Amgylchedd a Dylunio Adeiledig Ceredigion o'r CDLI a TAN 12.

## **Cynllun y Safle ac Amwynder Preswyl**

Mae maen prawf 7 o Bolisi DM06 yn ceisio gwarchod amwynder trigolion eiddo cyfagos rhag niwed arwyddocaol mewn perthynas â

phreifatrwydd, sŵn a golygfa. Mae eiddo preswyl yn agos i'r safle.

Ystyrir y gellir cyflawni'r datblygiad arfaethedig er mwyn sicrhau pellter gwahanu digonol rhwng ystafelloedd cyfanheddol anheddau unigol fel y nodir gyda Chanllawiau Cynllunio Atodol Amgylchedd Adeiledig a Dylunio Ceredigion. Ymhellach, ystyrir bod pob annedd yn elwa o ofod amwynder preifat awyr agored digonol er budd trigolion y dyfodol.

O ystyried pa mor agos yw'r safle i gefnffordd yr A487, darparwyd Asesiad Sŵn mewn perthynas ag effeithiau posibl yr hinsawdd sŵn bresennol ar drigolion y dyfodol a phenderfynu addasrwydd y safle at ddefnydd preswyl. Mae man agosaf unrhyw adeilad preswyl i'r A487 tua 40m o ymyl y lôn gerbydau, gyda ffin bresennol y safle, Heol y Felin Newydd ei hun, a'r llystyfiant presennol ar ymyl yr A487 yn ei groesi.

Mae arolygon a gynhaliwyd yn y lleoliad hwn yn dod i'r casgliad y byddai lefelau sŵn allanol yn ystod y dydd yn disgyn yn is na'r gwerth canllaw uwch o 55dB -- nid yw'r asesiad hwn yn cyfrif am unrhyw sgrinio neu blannu ychwanegol ar y ffin. O'r herwydd, mae'r asesiad yn dod i'r casgliad na fydd lefelau sŵn allanol yn yr ardd yn achosi effaith andwyol sylweddol i drigolion y dyfodol.

O ran lefelau sŵn mewnol, rhagwelir y bydd y plotiau agosaf yn profi lefelau sŵn rhwng 51-53dB a daw i'r casgliad y gellir cydymffurfio â rheoliadau adeiladu trwy osod gwydr dwbl thermol safonol. Mae'r asesiad yn nodi efallai y bydd angen cau ffenestri'r plotiau agosaf ac felly gellir darparu dull amgen o awyru gyda fentiau ffrâm drwedd acwstig yn unol â rheoliadau adeiladu.

Daw'r asesiad i'r casgliad: *"Mae'r asesiad hwn yn dangos yn wrthrychol y gellir datblygu'r safle uchod fel y'i cynigir heb i sŵn gael effaith andwyol sylweddol ar drigolion y dyfodol"*. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn fodlon â chasgliadau'r asesiad sŵn ac yn ystyried y gellir darparu'r datblygiad heb niwed sylweddol i drigolion y dyfodol.

O ran yr effeithiau i drigolion presennol yn agos, dylid ystyried Rhifau 4 i 11 ar Heol y Wern y mae eu gerddi cefn yn rhannu ffin â'r safle. Fel y dangosir gan gynlluniau rhannau ac y cyfeirir ato mewn man arall yn yr adroddiad hwn, mae lefelau tir yn yr ardal hon yn goleddfu ar i fyny i safle'r cais ac felly bydd yr anheddau arfaethedig yn gyffredinol yn eistedd ar safle uchel o gymharu â Heol y Wern. Fodd bynnag, mae'r bwriad yn cadw'r clawdd aeddfed presennol sy'n croesi safle'r datblygiad oddi wrth yr anheddau hyn ac ymhellach yn darparu byffer o ~8m o fewn y safle rhwng y rhannau agosaf o ardaloedd amwynder yr anheddau presennol a'r rhai arfaethedig.

Ar y sail hon, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn achosi niwed sylweddol i fwynderau preswyl unrhyw anheddau cyfagos yn amodol ar ddarparu / cadw triniaethau terfyn fel y cynigir, wedi'i sicrhau gan amod.

## Mannau Agored Cyhoeddus

Byddai'r datblygiad arfaethedig yn arwain at greu 104 o ystafelloedd gwely, ac o'r herwydd mae'n ofynnol darparu manau cyhoeddus yn unol â meincnodau a nodir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru 'Pecyn Cymorth Mannau Gwyrdd' (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach) a Safonau Meysydd Chwarae Cymru. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Mannau Agored Ceredigion yn rhoi eglurder pellach o ran darparu manau agored sydd eu hangen a nodir fel 2.8ha fesul 1000 o bobl. Mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo cyfanswm y manau agored sydd eu hangen fel a ganlyn:

$$2.8\text{ha fesul } 1000 \text{ o'r boblogaeth } 2.8\text{ha}/1000 * \text{nifer yr ystafelloedd gwely} = \text{lle cyffredinol.}$$

$$2.8\text{ha}/1000 * 104 = 0.2912\text{ha neu } 2912 \text{ msg}$$

Mae Canllawiau Cynllunio Atodol y Mannau Agored yn cyfrifo cyfran ofynnol y manau agored cyhoeddus hyn fel a ganlyn:

- Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch Cymunedol:  $104 \times 0.002 = 0.2080\text{ha}$  (2,080m.sg)
- Man Chwarae Naturiol ag Offer:  $104 \times 0.0008 = 0.0832\text{ha}$  (832m.sg)

Mae'r datblygiad yn darparu:

- 1,403m.sg o fannau agored anffurfiol ar ffurf y basn arafu, llwybrau troed o amgylch y nodwedd, a manau cymunedol mewn manau eraill o fewn y safle; a
- "Ardal Chwarae Leol" 375m.sg gyda nodweddion chwarae naturiol ac amwynderau cysylltiedig

Er bod y ffigurau hyn yn is na'r gofyniad a nodwyd, mae Canllawiau Cynllunio Atodol Mannau Agored Ceredigion yn glir bod manau gwyrdd ac agored nad ydynt efallai'n cael eu cydnabod yn aml am eu cyfraniad pwysig i'r ddarpariaeth gyffredinol o fannau agored. Mae ardaloedd o'r fath yn cynnwys gerddi preifat, glannau afonydd, rhandiroedd, a llwybrau beicio / cerddwyr – y mae pob un ohonynt yn amgylcheddau pwysig sy'n cynnig naill ai mynediad i fannau agored neu deimlad o fod o fewn neu wedi'ch amgylchynu gan fannau 'gwyrdd'. Bydd pob annedd arfaethedig yn elwa o'i amwynder preifat ei hun i'w gerddi cefn a blaen.

Yn yr achos hwn, bydd y safle hefyd yn cadw 4,610 m.sg o ardaloedd wedi'u tirlunio'n anffurfiol ar ffiniau'r safle i gadw gwyrddni sylweddol efallai na fydd yn cael ei ddarparu fel manau gwyrdd ffurfiol, ond bydd yn cyfrannu at amgylchedd cyffredinol yr ardal. Mae'n bosibl y bydd rhannau o'r ardaloedd anffurfiol hyn sydd wedi'u tirlunio yn ymarferol yn dibynnu ar lefelau'r tir sy'n deillio o hynny, sef mewn ardaloedd o amgylch mynediad i'r safle ac ar y ffin ogledd-ddwyrainol.

O ran y man chwarae naturiol ag offer, caiff y darpariaethau hyn eu defnyddio'n bennaf gan blant a fyddai'n byw gerllaw. Gellir cydnabod bod cyfran sylweddol o'r anheddau (unedau 1 ystafell wely) yn llai tebygol o gael eu meddiannu gan unrhyw blant ac felly efallai y bydd y galw cyffredinol am gyfleusterau o'r fath yn llai na'r disgwyl ar safleoedd datblygu ar gyfer tai cyffredinol sydd fel arfer yn darparu nifer uwch o anheddau mwy. Ar ben hynny, mae mân ostyngiadau i'r darpariaethau hyn wedi caniatáu i blotiau ychwanegol gael eu cynnwys yng nghynllun cyffredinol y safle i gynyddu'r tai fforddiadwy a ddarperir.

Felly, er bod llai o fannau agored cyhoeddus yn cael eu cynnig na'r hyn a nodir yn LU24, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn bod y darpariaethau'n dderbyniol i gydnabod yr amgylchedd cyffredinol a'r gwyrddni a gedwir yn anffurfiol, y cymysgedd arfaethedig o dai, a'r angen hollbwysig i ddarparu tai fforddiadwy.

Mae Polisi DM03 yn cynghori y bydd datblygiadau'n cael eu lleoli er mwyn lleihau'r angen i deithio ac mae'n nodi y dylid darparu manau parcio fel rhan o gynigion datblygu yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol Safonau Parcio Ceredigion.

Mae polisi DM04 yn tynnu sylw ymgeiswyr at yr angen i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ar gyfer cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Dylid cyflawni hyn drwy ddarparu cysylltiadau â'r llwybrau presennol o ddatblygiadau newydd, adfer seilwaith nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach lle byddant yn gwasanaethu datblygiad newydd mewn ffordd gynaliadwy, a darparu gwell iechyd ac ansawdd bywyd trwy ymgorffori nodweddion mewn datblygiad sy'n manteisio ar gysylltiadau â dulliau teithio heblaw ceir.

Nid yw'r Awdurdod Prifffyrdd Lleol wedi codi dim gwrthwynebiad yn destun amodau mewn perthynas â darparu'r mynedfeydd i gerbydau a cherddwyr fel y cynigir. Ystyrir bod y cyfleusterau parcio a throi mewnol yn bodloni gofynion Canllawiau Cynllunio Atodol Safonau Parcio Ceredigion a byddant yn cael eu sicrhau gan amod.

Bydd y droedffordd arfaethedig ar hyd Heol y Felin Newydd i Ffordd Aberystwyth hefyd yn cael ei sicrhau cyn i unrhyw anedd gael ei meddiannu er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei chyflawni fel y cynigir.

Bydd manylion llawn y ramp i gerddwyr o ganol y safle i Heol y Wern yn cael eu diogelu drwy amod o fewn amserlen resymol i sicrhau darpariaethau priodol a hwyluso symudiad pobl rhwng yr ardaloedd preswyl arfaethedig a phresennol er budd meithrin cymuned gydlynol a hyrwyddo creu lleoedd. Bydd y ramp yn darparu mynediad gwastad o fewn pellter byr i'r arhosfan bysiau ar Heol y Wern sy'n gwasanaethu pob ardal yn nhref Aberteifi ac ymhellach mewn manau eraill i Landudoch a Thraeth Poppit i'r de-orllewin.

### **Draenio Dŵr Budr a Dŵr Wyneb**

Bydd angen Cymeradwyaeth SDCau ar gyfer y datblygiad cyn dechrau unrhyw waith ar y safle, a ganiateir gan Gorff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy Ceredigion. Bydd gwybodaeth yn cael ei chynnwys ar unrhyw ganiatâd i roi cyngor felly.

Bydd y datblygiad yn cysylltu â'r brif garthffos bresennol sy'n gwasanaethu'r safle, yn amodol ar y caniatâd priodol gan Ddŵr Cymru Welsh Water (DCWW).

O ran draenio dŵr budr, cynigir bod y datblygiad yn cysylltu trwy system disgyrchiant â charthffos y prif gyflenwad yn Heol y Wern, yn amodol ar gydsyniadau priodol gan DCWW. Yn dilyn hysbysiad yn ystod haf 2023 bod Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Aberteifi wedi cyrraedd ei gapasiti, mae Dŵr Cymru wedi argymhell amod i'w osod i gyfyngu ar feddiannaeth yr anheddau hyd at adeg pan fydd y gwaith uwchraddio i'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff wedi'i gwblhau -- ar hyn o bryd wedi'i gynllunio ar gyfer 31ain Mawrth 2027. Bydd hyn yn cael ei osod fel yr argymhellir.

Ar ben hynny, mae DCWW wedi cadarnhau bod capasiti ar gael ar hyn o bryd yn y cyflenwad dŵr i ddarparu ar gyfer y datblygiad.

Bydd nodiadau cynghori CDCC yn cael eu cynnwys fel gwybodaeth am unrhyw ganiatâd.

### **Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd**

Cyflwynwyd Datganiad Seilwaith Gwyrdd, Cynllun Gwella Ecolegol, Adroddiad Arfarnu Ecolegol, Datganiad Dull Lliniaru Ymlusgiaid, Arolwg Coed, Cynllun Cynnal a Chadw a Rheoli'r Dirwedd, Strategaeth Goleuo a Strategaeth Blannu i gefnogi'r cais.

Mae'r safleoedd dros 1km o'r safle gwarchoddedig agosaf (ACA / SoDdGA) ac felly deuir i'r casgliad bod y datblygiad yn codi ychydig iawn o debygolrwydd o effeithiau ar y nodweddion hyn.

Mae'r Ecolegydd Cynllunio yn fodlon â'r wybodaeth a roddwyd mewn perthynas â rhywogaethau, coed a chloddiau gwarchoddedig yn destun amodau sy'n sicrhau mesurau a amlinellir yn y dogfennau ategol. Mae'r Ecolegydd Cynllunio yn fodlon felly y gellir sicrhau enillion net bioamrywiaeth yn destun amodau, yn unol â DM14, DM15 ac yn unol â chanllawiau Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru 23/10/2019 ar gyfer enillion bioamrywiaeth net.

### **Ymateb i Wrthwynebiadau [Sylwadau'r awdurdod cynllunio lleol mewn print trwm]**

- Mae'r safle y tu allan i ffin anheddiad y CDLI
  - **Ymdriniwyd â hyn yn 'Egwyddor Datblygu'**
- Maint y datblygiad yn groes i lwybr tai Aberteifi -- ni ellir ei ystyried yn safle eithriedig gwledig
  - **Ymdriniwyd â hyn yn 'Egwyddor Datblygu'**
- Pryderon ynghylch cynhyrchu traffig, gallu cyffwrdd, tagfeydd, diogelwch ar y ffyrdd, parcio
  - **Nid yw'r Awdurdod Prifffyrdd Lleol nac Asiantaeth y Cefnffyrdd wedi codi dim gwrthwynebiadau, yn destun amodau**
- Mwy o alw ar drafnidiaeth gyhoeddus
  - **Byddai cynnydd yn y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn fwy tebygol o gynnal a gwella gwasanaethau. Ystyrir fel arall bod y safle wedi'i leoli o fewn pellter cerdded i wasanaethau allweddol**
- Effaith ar wasanaethau lleol (ysgolion, practisau meddygol, deintyddion)
  - **Ymdriniwyd â hyn yn 'Effaith ar y Gymraeg a'r Gymuned'**
- Niwedd ecolegol i rywogaethau a chynefin
  - **Ymdriniwyd â hyn yn 'Bioamrywiaeth a Seilwaith Gwyrdd'**
- Dyluniad yn anghyson â'r datblygiad o'i gwmpas
  - **Ymdriniwyd â hyn yn 'Dylunio, Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol'**
- Pryderon y bydd y datblygiad yn edrych dros eiddo eraill
  - **Ymdriniwyd â hyn yn 'Cynllun y Safle ac Amwynder Preswyl'**
- Pryderon am allu draenio dŵr budr
  - **Ymdriniwyd â hyn yn 'Draenio Dŵr Budr a Dŵr Wyneb'**
- Pryderon am lifogydd dŵr wyneb
  - **Ymdriniwyd â hyn yn 'Draenio Dŵr Budr a Dŵr Wyneb'**
- Mwy o lygredd sŵn / golau / aer
  - **Ymdriniwyd â hyn yn rhannol yn 'Cynllun y Safle ac Amwynder Preswyl'. Nid yw'r safle wedi ei leoli mewn Ardal Rheoli**



- Effaith ar gyflenwad trydan / dŵr
  - **Mae'r Grid Cenedlaethol wedi cadarnhau bod capasiti'r grid ar gael i'r datblygwr. Mae DCWW wedi cadarnhau capasiti cyflenwad dŵr.**
- Diffyg Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu ac Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd
  - **Caiff Cynllun Adeiladu Rheoli Amgylcheddol ei orfodi gan amod cynllunio, yn unol â argymhellion yr Ecolegydd Cynllunio. Nid yw'r safle o fewn unrhyw barth llifogydd a nodir yn y Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio.**
- Nid yw'r rhybuddion cywir wedi eu rhoi i dirfeddianwyr
  - **Mae'r awdurdod cynllunio lleol yn fodlon bod hysbysiadau Erthygl 10 wedi'u rhoi i'r tirlfeddianwyr perthnasol yn ôl y gofyn**
- Ymholiadau mewn perthynas â safleoedd eraill yn Aberteifi sy'n eiddo i Tai Wales and West
  - **Nid yw'r materion hyn yn ystyriaethau cynllunio perthnasol o ran y cais dan sylw**

Mewn perthynas â'r ail-ymgyngoriad:

- Gwaethygu ymddygiad gwrthgymdeithasol (tipio anghyfreithlon, gweithgaredd annymunol, defnyddio cilfan wrth ymyl cartrefi symudol)
  - **Nid yw'r ACLI yn cytuno bod datblygiad preswyl yn ei hanfod yn cynyddu'r tebygolrwydd o ymddygiad gwrthgymdeithasol**
- Gwaethygu trosedd, sŵn, fandaliaeth
  - **Nid yw'r ACLI yn cytuno bod datblygiad preswyl yn ei hanfod yn cynyddu'r tebygolrwydd o ymddygiad gwrthgymdeithasol**
- Nid oes angen cysylltiadau llwybrau troed â Heol y Felin Newydd a Heol y Wern
  - **Mae'r ACLI a'r Awdurdod Priffyrdd Lleol o'r farn bod angen y cysylltiadau i gerddwyr rhwng y safle arfaethedig er budd athreiddedd y safle, galluogi / hyrwyddo teithio actif, a meithrin cydlyniant cymunedol rhwng preswylwyr presennol a newydd.**
- Nid yw cyswllt llwybr troed i Heol y Wern wedi derbyn cymeradwyaeth yr heddlu
  - **Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cydnabod sylwadau Swyddog Dylunio Atal Trosedd (SDAT) Heddlu Dyfed Powys (HDP) sydd wedi'u cynnwys yn y dogfennau a gyflwynwyd mewn perthynas â'r cyswllt llwybr troed i Heol y Wern -- fodd bynnag, nid yw'r ACLI yn ystyried bod cynnwys llwybr troed yn y lleoliad hwn yn cynyddu'r tebygolrwydd o drosedd yn ei hanfod.**
- Byddai cyswllt llwybr troed i Heol y Wern yn effeithio ar breifatrwydd a diogelwch eiddo cyfagos
  - **Er y byddai'r llwybr troed yn cynyddu nifer yr ymwelwyr ar y ffordd bresennol o Heol y Wern, mae cyd-destun y safle yn gwbl breswyl fel y mae ac nid oes unrhyw gyfyngiad ar ddefnydd aelodau'r cyhoedd o'r briffordd gyhoeddus a throedffyrdd. Mater i'r perchennog yw darparu triniaeth ffin ddigonol a diogel.**
- Ymholiadau ynghylch cywirdeb datganiadau ecolegol mewn perthynas â moch daear a nadroedd gwair
  - **Mae'r Ecolegydd Cynllunio wedi cadarnhau bod y Gwerthusiad Ecolegol Rhagarweiniol (GER) a ddarparwyd yn ddilys -- fodd bynnag, yng ngoleuni sylwadau a thystiolaeth gan drydydd parti, maent wedi argymhell cynnal arolwg pellach mewn perthynas â moch daear cyn dechrau ar y gwaith i sicrhau nad oes unrhyw niwed i rywogaethau a warchodir. Bydd hyn yn cael ei sicrhau drwy amod cynllunio.**
- Cais am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) i'w gynnal a'i wneud yn gyhoeddus
  - **Daeth yr Ecolegydd Cynllunio i'r casgliad nad oedd angen ARhC oherwydd pellter y safle o'r cwrs dŵr agosaf sydd wedi'i gysylltu'n hydrolegol â'r Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) (dros 300m)**
- Nid yw 7 diwrnod gwaith yn ddigon hir i ganiatáu i ymgynoreion statudol / anstatudol a'r cyhoedd ymateb i ail-ymgyngoriad
  - **Cyhoeddwyd ail-ymgyngoriad ar 17 Chwefror tan 3 Mawrth, sef cyfanswm o 14 diwrnod (10 diwrnod gwaith). Mae'r ACLI o'r farn bod hyn yn briodol.**

## ARGYMHELLIAD:

Cymeradwyo gydag Amodau

**MAE'R CAIS YN DDATBLYGIAD MAWR AC FELLY MAE'R CAIS YN CAEL EI GYFEIRIO AT Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU YN UNOL Â CHYNLLUN DIRPRWYO'R CYNGOR**

**Rhif y Cais /**  
**Application Reference** A240851  
**Derbyniwyd / Received** 14-11-2024

**Y Bwriad / Proposal** Residential development, together with associated vehicular and pedestrian accesses, car parking, amenity areas, landscaping and ancillary development: site preparation, clearance, treatment, re-profiling and the installation of new services and infrastructure.

**Lleoliad Safle / Site Location** Land at Dol Y Dintir, New Mill Road, Cardigan, SA43 1NE

**Math o Gais / Application Type** Full Planning

**Ymgeisydd / Applicant** Mr Craig Jones, Wales & West Housing Association, Cwrt Y Llan Church Lane, Newcastle Emlyn, SA38 9AB

**Asiant / Agent** Mr Michael Southall (Amity Planning), Creative Quarter A8 Morgan Arcade, Cardiff, CF10 1AF

## THE SITE AND RELEVANT PLANNING HISTORY

The application site refers to a parcel of greenfield land of some 1.9 hectares located to the north-eastern edge of Cardigan. The site is broadly rectangular and comprises of undulating grassland bound by mixed native hedgerows. The site is devoid of any buildings or structures and it is stated that the field is occasionally grazed by livestock, mainly sheep.

The site lies outside of, but immediately adjoins, the settlement boundary of Cardigan as defined by the Ceredigion Local Development Plan (LDP). To the west of the site lies the existing residential estates of Heol y Wern and Heol Derw, to the north are a small number of dwellings along New Mill Road -- the nearest being a large detached dwelling known as Y Winllan -- and to the east lies open agricultural land adjacent to the A487 Trunk Road.

A small portion of the north of the site lies within an Aggregate Safeguarding Area. The site does not sit within any flood zone in relation to rivers, seas, or watercourses as set out by the Flood Map for Planning (FMfP).

### Planning History:

- 751931: Outline Planning -- Residential development -- REFUSED 18-02-1976
- 771280: Outline Planning -- Extension to existing residential estate -- REFUSED 04-01-1978
- 780596: Outline Planning -- Extension to residential estate -- APPROVED STC 11-10-1978
- 920157: Outline Planning -- Erection of retail foodstore and associated Petrol Filling Station -- REFUSED 09-06-1992 [Appeal Lodged and Withdrawn]
- A040429: Full Planning -- Non-food retail units -- WITHDRAWN 07-08-2006
- A100957: Full Planning -- Erection of four-pump petrol filling station together with associated kiosk, jet wash and automatic car-wash, recycling centre and ancillary works -- WITHDRAWN 04-03-2011

## DETAILS OF DEVELOPMENT

The application is submitted on behalf of Wales and West Housing Association (WWHA) -- a registered social landlord -- seeking full planning permission for the development of 51no. affordable dwellings, the formation of highway and pedestrian access through the site to adoptable standards, the provision of public open space, an attenuation basin for surface water, and all associated works.

The dwellings are to be provided as follows:

- 3no 1-Bed 2-Person GF Flats (**51sq.m**)
- 3no 1-Bed 2-Person FF Flats (**55sq.m**)
- 10no 1-Bed 2-Person Bungalows (**50sq.m**)
- 1no 2-Bed 4-Person Wheelchair-Accessible Bungalow (**96sq.m**)
- 20no 2-Bed 4-Person Houses (**83sq.m**)
- 10no 3-Bed 5-Person Houses (**95sq.m**)
- 4no 4-Bed 6-Person Houses (**110sq.m**)

The proposed dwellings shall be maintained and managed for social rent by WWHA to meet specific housing needs identified by Ceredigion County Council's housing register and allocated in accordance with the Council's Common Allocations Policy.

The dwellings are proposed with traditional pitched roofs under tiles of two colours respectively (dark grey / dark red) with external walls in a variety of sand/cement painted render and red brick finish. Doors are to be provided in styled composite with windows, rainwater goods, fascias, and soffits in UPVC.

